OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 915 (Cy.118)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) (Diwygio) (Cymru) 2003

Wedi'u gwneud - -	*26 Mawrth 2003*
Yn dod i rym - -	*1 Ebrill 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pŵer a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 42(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989(**1**) sydd wedi'i freinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y mae'n arferadwy yng Nghymru(**2**):

Enw, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) (Diwygio) (Cymru) 2003 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2003.

(2) Mae'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn gymwys i awdurdodau lleol yng Nghymru yn unig.

(3) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "Rheoliadau 1997" ("*the 1997 Regulations*") yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) 1997(**3**).

Diwygio Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) 1997

2. Ar ôl rheoliad 12A (Gwariant nad oes angen ei dynnu o gyfrif refeniw — gwariant at ddibenion cyfalaf ar eiddo yn y Cyfrif Refeniw Tai) o Reoliadau 1997 mewnosodir —

> "**Expenditure by a local authority in Wales not required to be charged to a revenue account — expenditure in respect of liabilities for retirement benefits**
>
> **12B.**—(1) Expenditure by a local authority in Wales in respect of liabilities for retirement benefits appropriated to a pension reserve in accordance with proper practices shall be expenditure falling within section 42(2).

(**1**) 1989 p.42.
(**2**) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) O.S. 1997/319, a ddiwygiwyd gan O.S. 2000/3237. Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.